
# Diogelu'ch gwybodaeth fiometrig mewn ysgolion a cholegau

## Canllaw i'r gyfraith i blant a phobl ifanc



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk



## Cyflwyniad

Mae technoleg, fel cyfrifiaduron, ffonau, sgriniau a hyd yn oed robotiaid fel fi, yn gallu bod yn wych i bawb. Maen nhw'n aml yn gallu helpu i wneud pethau'n gyflymach ac yn haws. Gallan nhw hyd yn oed helpu â chael gwybodaeth a'i storio.

Mae technoleg yn cael ei defnyddio ar gyfer llawer o wahanol bethau, gan gynnwys cymryd a storio gwybodaeth. Gwybodaeth fiometrig yw'r enw ar rywfaint o'r wybodaeth honno.

### Enghraifft:

Efallai fod rhai ysgolion yn defnyddio system olion bysedd i gofrestru, i fenthyca llyfrau llyfrgell neu i dalu am eich cinio.

## Be' ydy gwybodaeth fiometrig?

Gwybodaeth unigryw ydy hi sy'n helpu i wahaniaethu rhywun o bobl eraill.

Mae gwybodaeth fiometrig yn gallu cynnwys:

- olion bysedd
- siâp yr wyneb
- retina neu iris yn y llygad
- mesuriadau'r llaw.

**Mae hyn yn golygu bod modd gwybod pwy yw rhywun a'u hadnabod nhw.**





# Y dechnoleg fiometrig

## Oeddech chi'n gwybod?

Nid ydy peiriannau sy'n cael eu galw'n systemau biometrig yn tynnu llun o'ch olion bysedd neu'ch wyneb. Yn hytrach, maen nhw'n edrych ar wybodaeth fel olion bysedd ac yn eu trosi'n rhifau. Mae'r rhifau yma'n wahanol i bawb a dyna sut mae'r peiriant yn gwybod pwy ydych chi.

**Mae gan rai ysgolion a cholegau offer arbennig wedi'u gosod i'w helpu i gymryd gwybodaeth fiometrig a'i defnyddio.**



Mae gwybodaeth fiometrig yn bwysig iawn ac mae yna gyfreithiau i wneud yn siŵr ei bod hi'n cael ei chymryd a'i storio'n ddiogel.

Dyma'r cyfreithiau:

**Diogelu Rhyddidau 2012**

**Deddf Diogelu Data 1998**

# Diogelu Rhyddidau 2012

## Be' mae'n ei olygu i chi

### 1. Mae'n rhaid i'r ysgol neu'r coleg gael caniatâd i gymryd a defnyddio'ch gwybodaeth fiometrig CHI.

Mae'n rhaid i ysgolion a cholegau roi gwybod i'ch dau riant, os gallan nhw, pa wybodaeth fiometrig maen nhw eisiau ei chymryd, a dweud sut byddan nhw'n ei defnyddio hi.

Mae'n bosib y byddan nhw'n gwneud hyn pan fyddwch chi'n dechrau'r ysgol neu'r coleg, neu pan mae angen iddyn nhw.

Dylai ysgolion a cholegau ddweud wrthoch chi ac wrth eich rhieni bod gennych chi hawl i ddweud 'na'.

Ni cheir cymryd na defnyddio'ch gwybodaeth fiometrig heb ganiatâd oddi wrth riant.

Os ydych chi a'ch rhieni i gyd yn cytuno, yna dim ond un rhiant sydd angen rhoi caniatâd ysgrifenedig i'r ysgol neu'r coleg.

### Be' os nad ydy hi'n bosib gofyn i fy nau riant?

Mae teulu pawb yn wahanol. Bydd yna adegau pan fydd yr ysgol neu'r coleg dim ond yn gallu cysylltu ag un rhiant, ac adegau pan na fydd yn bosib gofyn i'r naill na'r llall ohonyn nhw.

**Er enghraifft pan:**

- nad yw'n bosib dod o hyd i un rhiant
- nad yw rhiant yn gallu rhoi caniatâd oherwydd salwch meddwl
- mae rhywun wedi'i wahanu oddi wrth ei rieni i'w gadw'n ddiogel.

Os nad ydy rhywun yn byw gyda'u rhieni, yna mae'r ysgol yn gallu ysgrifennu at y person sy'n gofalu amdanyn nhw i gael caniatâd.
Gallai hyn fod yn:

- aelod arall o'r teulu
- yr awdurdod lleol neu'r mudiad gwirfoddol sy'n gofalu amdanoch chi.


## 2. Gallwch chi ddweud 'na'!

Os nad ydych chi eisiau i'r ysgol neu'r coleg gymryd eich gwybodaeth fiometrig, yna mae'n rhaid iddyn nhw beidio â'i chymryd, hyd yn oed os ydy'ch rhieni wedi rhoi caniatâd.

### Be' os nad ydyn nhw'n gwrando arna' i?

**Yna gallwch chi gael eich rhieni, eich ffrindiau neu rywun rydych chi'n ymddiried ynddo, fel athro neu weithiwr ieuenctid, i fod yn eiriolwr ichi – rhywun sy'n ochri â chi ac a fydd yn siarad ar eich rhan.**

Dylai ysgolion a cholegau roi gwybod ichi bod gennych chi'r hawl i ddweud 'na'!




## 3. Mae yna ffyrdd eraill!

Os nad ydych chi neu'ch rhieni eisiau i'r ysgol neu'r coleg gymryd a defnyddio'ch gwybodaeth fiometrig, yna mae'n rhaid iddyn nhw ddod o hyd i ffordd arall o'ch adnabod pan fo angen hynny.

### A oes yn rhaid i ysgolion a cholegau gael caniatâd rhieni bob blwyddyn?

**Nac oes – dim ond unwaith y mae angen rhoi caniatâd ysgrifenedig. Ni ddaw'r caniatâd i ben oni bai bod eich rhieni'n newid eu meddyliau ac yn ysgrifennu at yr ysgol neu'r coleg i ddweud wrthyn nhw, eich bod chi'n newid eich meddwl, neu eich bod chi'n gadael yr ysgol neu'r coleg.**



# Deddf Diogelu Data 1998
## Be' mae'n ei olygu i chi

### 1. Mae'n rhaid gofalu am wybodaeth fiometrig yn briodol ac mae yna reolau ar waith i wneud yn siŵr bod hyn yn digwydd.

Mae'n rhaid i ysgolion a cholegau gadw'r holl wybodaeth yn ddiogel, fel mai dim ond nhw sy'n gallu ei defnyddio.


Mae'n rhaid i ysgolion a cholegau ddinistrio'ch gwybodaeth fiometrig:


- pan rydych chi'n gadael yr ysgol neu'r coleg
- os yw'ch rhieni'n newid eu meddyliau
- os nad ydych chi eisiau iddyn nhw ddefnyddio'ch gwybodaeth.

**Be' os ydy'r naill riant yn anghytuno â'r llall?**

**Os ydy un rhiant yn gwrthwynebu neu'n dweud 'na', yna ni fydd yr ysgol neu'r coleg yn cael cymryd a defnyddio'ch gwybodaeth fiometrig.**

Mae'n rhaid i ysgolion a cholegau hefyd wneud yn siŵr mai dim ond o fewn yr ysgol neu'r coleg y mae'r wybodaeth yn cael ei defnyddio, ac nad yw'n cael ei rhannu ag unrhyw un y tu allan i'r ysgol oni bai bod y gyfraith yn dweud eu bod nhw'n gallu gwneud hynny.





# Be' ydych CHI'N ei wybod?

Mae angen i ysgolion a cholegau gael caniatâd i ddefnyddio'ch gwybodaeth fiometrig CHI.

✓ Gwir ✗ Gau ! Ddim yn gwybod

Mae angen i ysgolion a cholegau ofyn i'ch dau riant, os gallan nhw, am ganiatâd ysgrifenedig.

✓ Gwir ✗ Gau ! Ddim yn gwybod

Mae gennych chi hawl i ddweud 'na' os ydych chi eisiau gwneud hynny.

✓ Gwir ✗ Gau ! Ddim yn gwybod

Mae ysgolion yn cael storio gwybodaeth fel y mynnan nhw.


✓ Gwir ✗ Gau ! Ddim yn gwybod

Roeddwn i'n gwybod am wybodaeth fiometrig yn barod.

✓ Gwir ✗ Gau ! Ddim yn gwybod

Mae'n rhaid i ysgolion neu golegau ddinistrio'ch gwybodaeth ar ôl ichi adael neu os ydych chi wedi newid eich meddwl.

✓ Gwir ✗ Gau ! Ddim yn gwybod



Mae'n rhaid i ysgolion a cholegau ddod o hyd i ffordd arall o'ch adnabod a'ch gwahaniaethu os nad ydych chi eisiau iddyn nhw ddefnyddio'ch gwybodaeth fiometrig.


✓ Gwir ✗ Gau ! Ddim yn gwybod

Roeddwn i'n gwybod am y Diogelu Rhyddidau 2012 yn barod.

✓ Gwir ✗ Gau ! Ddim yn gwybod

Roeddwn i'n gwybod am Ddeddf Diogelu Data 1998 yn barod.

✓ Gwir ✗ Gau ! Ddim yn gwybod



# Be' ydy'ch barn CHI?

**Ydy'ch ysgol chi'n defnyddio gwybodaeth fiometrig?**

✓ Ydy ✗ Nac ydy ! Ddim yn gwybod

**Os ydyn nhw, be' maen nhw'n ei defnyddio ar ei gyfer?**

. . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

. . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

**Ydych chi'n meddwl ei bod hi'n syniad da defnyddio gwybodaeth fiometrig?**

✓ Ydw ✗ Nac ydw ! Ddim yn gwybod

**Pam?**

. . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

. . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

**Pa newidiadau fuasech chi'n hoffi eu gweld?**

. . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

. . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

. . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

## Diolch am ddarllen hwn!

**Anfonwch eich atebion i:**

IMS@cymru.gsi.gov.uk

**I gael mwy o wybodaeth, ysgrifennwch at:**

IMS@cymru.gsi.gov.uk



youthfriendly.co.uk

© Hawlfraint y Goron 2012
WG15278